**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**IS-BWYLLGOR (CYLLID) Y CABINET**

**DYDD MERCHER, 30 MEHEFIN 2021**

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr:: C.Clement-Williams a/ac D.Jones

**Swyddogion yn bresennol:**

H.Jenkins, H.Jones, M.Shaw a/ac J.Woodman-Ralph

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd C Clement-Williams yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

3. **CEISIADAU I'R GRONFA GRANTIAU AMRYWIOL**

**Penderfyniadau:**

1. Bod Ymddiriedolwyr Clwb Pêl-droed Ieuenctid Pentref Margam yn derbyn grant o £715 y flwyddyn ar gyfer 2021/2022 yn unig ac yna £665 y flwyddyn tuag at brydles cae pentref Margam, yn amodol ar adolygiad yn unol ag adolygiadau rhent parthed 1 Ebrill 2022.

2. Bod Ymddiriedolwyr Clwb Rygbi Blaendulais yn derbyn grant o £550 y flwyddyn ar gyfer 2021/2022 yn unig ac yna £500 y flwyddyn tuag at brydles caeau chwarae Blaendulais yn amodol ar adolygiad yn unol ag adolygiadau rhent parthed 1 Ebrill 2022.

3. Bod Ymddiriedolwyr Clwb Pêl-droed Athletau Croeserw yn derbyn grant o £1,155 ar gyfer 2021/2022 yn unig ac yna £1,100 y flwyddyn tuag at brydles y caeau chwarae a'r pafiliwn ym Mharc Tudor, yn amodol ar adolygiad yn unol ag adolygiadau rhent parthed 1 Ebrill 2022.

4. Bod Ymddiriedolwyr Clwb Rygbi Cwmgors yn derbyn grant o £495 y flwyddyn ar gyfer 2021/2022 yn unig ac yna £460 y flwyddyn tuag at brydles ystafell newid ym Mharc y Werin yn amodol ar adolygiad yn unol ag adolygiadau rhent parthed 1 Ebrill 2022.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

I alluogi'r cyngor i brosesu ceisiadau grant.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

## 4. MYNEDIAD I GYFARFODYDD

**Penderfyniad:**

Yn unol â Rheoliad 4(3) a (5) Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290, gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol a oedd yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a diffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

## 5. DILEU ARDRETHI BUSNES

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo dileu Ardrethi Busnes fel y manylwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd ac Atodiad 1.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Nid oes modd adfer y cyfrifon.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

## 6. DILEU TRETH Y CYNGOR

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo dileu Treth y Cyngor fel y manylwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd ac Atodiad 1.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Nid oes modd adfer cyfrifon Treth y Cyngor.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**CADEIRYDD**